



Samuel Link - MTCBC Software Development Apprentice



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Anelu'n Uchel Merthyr Tudful - Rhaglen Rhannu Prentisiaeth
Aspire Merthyr Tydfil - Shared Apprenticeship Programme

Pa sgiliau ydych chi wedi'u hennill drwy eich prentisiaeth? Yn y gwaith, rwyf wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu gwefannau, gan ennill sgiliau a phrofiad mewn HTML, CSS, JavaScript, diogelwch gwe, a hygyrchedd. Yn y brifysgol, rydym wedi ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o feddwl cyfrifiadol a hanfodion rhaglennu i reoli data a chrynhwyr. Rwy'n edrych ymlaen at weld beth sydd nesaf yn y semester newydd, sy'n dechrau ymhen ychydig wythnosau.



Sut mae'r brentisiaeth wedi effeithio ar eich bywyd? Mae'r brentisiaeth wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar fy mywyd. Yn flaenorol, treuliais bron i ddegawd mewn manwerthu—swydd nad oeddwn yn ei mwynhau'n arbennig—felly mae newid i rywbeth rwy'n angerddol amdano wedi bod yn hwb enfawr i ansawdd fy mywyd ac iechyd meddwl.

“Rwy'n mwynhau pob rhan o'r brentisiaeth, mae wedi bod yn newid fy mywyd i.”

Beth fyddai eich cyngor i rywun sy'n ystyried gwneud prentisiaeth? I unrhyw un sy'n ystyried prentisiaeth, byddwn i'n dweud os yw'n rhywbeth rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei fwynhau, ewch amdani! Gallai fod yn un o benderfyniadau gorau eich bywyd yn y pen draw—yn union fel yr oedd i mi.